

Cynllun Iaith Gymraeg - Y Comisiwn Etholiadol Adroddiad Monitro 2010-11

1. Cyflwyniad

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygyrdd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Rydym yn:

- cofrestru pleidiau gwleidyddol
- sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau
- cyhoeddi manylion am le mae pleidiau ac ymgeiswyr yn cael eu harian a sut maent yn ei wario
- gosod y safonau ar gyfer cofrestru etholiadol a chynnal etholiadau ac adrodd ar ba mor dda y gwneir hyn
- sicrhau bod pobl yn deall ei fod yn bwysig cofrestru i bleidleisio, ac yn gwybod sut i bleidleisio
- cynnal unrhyw refferenda yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2000

Mae Bwrdd y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys deg Comisiynydd, un ohonynt yn Gadeirydd, sy'n arwain ar osod ein strategaeth a blaenoriaethau. Maent yn annibynnol o bleidiau gwleidyddol - er bod pedwar o'r Comisiwynyr a benodwyd gennym yn ddiweddar yn dod â phrofiad uniongyrchol o bleidiau gwleidyddol - ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Senedd.

Cefnogir y Bwrdd gan Brif Weithredwr, Tîm Gweithredol a gweithlu o oddeutu 150 o staff.

Mae gennym swyddfeydd yn Llundain, Caeredin, a Belfast, a swyddfeydd wedi'i lleoli yn Llundain, Coventry a York sy'n ymwneud â rhanbarthau Lloegr.

Mae Pennaeth Swyddfa Cymru yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun ac mae'n cael ei chefnogi gan Ddirprwy Bennaeth mewn ymgynghoriad â chyfarwyddiaethau perthnasol.

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg statudol y Comisiwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 12 Ebrill 2010.

Mae'r Cynllun yn darparu fod y Comisiwn yn dangos ei ymrwymiad i'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal cyn belled ag y mae'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

2. Cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg

Isod amlinellwn sut mae'r Comisiwn wedi perfformio yng nghyswllt targedau ac amserlenni a osodwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg statudol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn Ebrill 2010.

Delio gyda'r etholaeth sy'n siarad Cymraeg

Gwefan	2010-2011	
<p>Sicrhau bod defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu gweld lle gallan nhw ddod o hyd i gynnwys Cymraeg ar y safle yn glir</p>	<p>Glanhau tudalen gartref ardal Cymru i gynnwys nodwedd gyson sy'n egluro wrth ddefnyddwyr sut i ddefnyddio'r wefan i ddod o hyd i gynnwys yn y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Comisiwn yn bwriadu creu templed tudalen iaith Gymraeg newydd gydag opsiynau llywio yn Gymraeg yn unig. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio gyda'r holl dudalennau Cymraeg presennol a newydd, gyda thudalen Cymru yn parhau i fod y porth 'cartref' i gynnwys iaith Gymraeg ar wefan y Comisiwn.</p>
<p>Datblygu cynnwys iaith Gymraeg ar y wefan i gynnwys gwybodaeth gorfforaethol</p>	<p>Ychwanegu tudalennau at y llywio eilaidd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amdanom ni • amcanion a chyflawniadau corfforaethol • rolau a chyfrifoldebau strwythur corfforaethol 	<p>Rydym yn bwriadu gosod togl iaith Gymraeg/iaith Saesneg ar dudalennau perthnasol er mwyn galluogi'r defnyddiwr i symud rhwng gwahanol fersiynau iaith y dudalen petaent yn dymuno (amserlen i'w gadarnhau).</p> <p>Eisoes mae'r Comisiwn wedi darparu cynllun gweithredu yn ymwneud â'r maes hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym Mehefin 2011. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau a'r terfynau amser perthnasol sydd yn eu lle. Mae'r cynllun gweithredu wedi ei gynnwys yn yr adroddiad monitro hwn a buasem yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ar y manylion.</p>

<p>Gwella cyfeiriaeth a dull o groesgysylltu fel nad yw defnyddwyr yn gweld cynnwys Cymraeg yn ymddangos yng nghanol y tudalennau Saesneg</p>	<p>Ar hyn o bryd, gellir dod o hyd i ddolenni i'r cynnwys Cymraeg tu allan i dudalennau Cymru, e.e. ar dudalennau UK Parliamentary etholiadau pages dan Guidance. Dyma lle mae cynnwys i gyfarwyddyd a ffurflenni yn y Gymraeg yn ymddangos gyda'r Saesneg ar yr un dudalen.</p>	
<p>Sicrhau bod holl dudalennau Cymru yn y Gymraeg</p>		

Dealltwriaeth effeithiol o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn

	2010-2011	
<p>a) Hyfforddi Staff</p>	<p>Datblygu a dosbarthu cyfarwyddyd mewnol i'r Cynllun Iaith Gymraeg i'r holl staff erbyn Ebrill 2011</p>	<p>Mae'r Comisiwn nawr yn bwriadu datblygu'r canllaw hwn fel rhan o sesiwn briffio gynhwysfawr i staff newydd gan gynnwys modiwlau e-ddysgu erbyn Ebrill 2012. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall yr hyfforddiant gynnwys unrhyw ddarpariaethau/ newidiadau newydd a wneir i'r cynllun ac y gall gael ei ddatblygu'n ffurfiol drwy brosesau e-ddysgu'r Comisiwn.</p>
<p>b) Archwilio Staff</p>	<p>Cynnal archwiliad mewnol o'r holl staff i ganfod y rhai hynny sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen yr Iaith Gymraeg yn effeithiol o fewn y sefydliad</p>	<p>Ar hyn o bryd mae dau aelod o staff sy'n gweithio yn y Comisiwn yn medru siarad, ysgrifennu a darllen yr Iaith Gymraeg yn effeithiol.</p>

c) Etholiadau	Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau dan Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer Unrhyw etholiad sy'n cael ei gynnal yng Nghymru	<p>Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ar wasanaeth mewnwyd y sefydliad. Mae staff perthnasol Swyddfa Cymru yn cymryd rhan yn y broses gynllunio ar gyfer unrhyw ddeunydd dwyieithog angenrheidiol a ddarperir yng Nghymru o gam cynnar. Mae aelodau eraill o staff sy'n ymwneud â chynhyrchu'r adnoddau dwyieithog yn cael eu briffio'n llawn ynghylch yr hyn sydd ei angen o dan y cynllun statudol.</p> <p>Eleni cynhyrchodd y Comisiwn ddeunydd dwyieithog ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Tra'r ydym yn gweithio gyda'r Bwrdd ar fater sy'n gysylltiedig â'n deunyddiau canllaw i ymgeiswyr ac asiantiaid, rydym hefyd wedi cynhyrchu deunyddiau canllaw cwbl ddwyieithog i staff awdurdod lleol ac rydym wedi rhedeg ymgyrch wybodaeth gyhoeddus ddwyieithog ar yr etholiadau.</p>
d) Refferenda	Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r goblygiadau o dan Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn wrth baratoi ar gyfer Unrhyw refferendwm sy'n cael ei gynnal yng Nghymru	Cyhoeddwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ar wasanaeth mewnwyd y sefydliad. Roedd staff Swyddfa Cymru'r Comisiwn yn cymryd rhan agos mewn rhedeg y ddau refferendwm yn 2011 ac yn sicrhau bod yr holl ymrwymadau o dan y cynllun yn cael eu hystyried gan yr holl staff perthnasol. Roedd hyn yn cynnwys yr holl broses asesu'r cwestiwn, darparu'r dogfennau canllaw perthnasol, gwybodaeth i'r cyhoedd am y refferendwm a'r prif ddigwyddiad canlyniadau.

	<p>Sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg o ran sicrhau bod eglurder unrhyw gwestiwn refferendwm yn cael ei farnu a'i brofi'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Gweithiodd y Comisiwn yn agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y broses asesu'r cwestiwn. Roedd yn hanfodol fod y cwestiynau Saesneg a Chymraeg yn cael eu trin yn gyfartal a theg. Derbyniwyd yr adroddiad dilynol ac argymhellion ynglŷn â'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r rhagarweiniad a'r cwestiwn yn llawn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.</p>
<p>e) Monitro Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn</p>	<p>Cyflwyno adborth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut mae'r Comisiwn yn cwrdd â gofynion y cynllun a'r cynllun gweithredu erbyn Mehefin 2010</p>	<p>Mae'r Comisiwn yn deall pwysigrwydd ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn falch o allu darparu'r adroddiad monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddwn hefyd yn gwneud yr adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan.</p>

Gweithio gyda Thrydydd Partïon a Grwpiau

Wrth ystyried y maes gwaith hwn rydym wedi edrych at gynnwys y trydydd partïon hynny y mae eu gwaith yn effeithio ar y rhanddeiliaid hynny a fyddai'n dod dan gylch gorchwyl Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn. Y meysydd hynny fyddai:

Ymgyrchoedd a gwybodaeth gyhoeddus:

	2010-2011	
Cyngor i gontractwyr	Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau	Cafodd yr asiantaethau a chyflenwyr a oedd yn gweithio ar yr ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus eu caffael drwy fframweithiau'r Swyddfa Gwybodaeth Ganolog (COI). Rhan o gylch gorchwyl y COI yw sicrhau fod yr asiantaethau a chyflenwyr yn gyfarwydd â chyngor arfer gorau ar Gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar sut i ddefnyddio'r iaith Gymraeg i gyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.
	Sesiynau cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / chyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru	Roedd ein briff gofynion craidd ar gyfer yr ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus a anfonwyd at yr asiantaethau a COI yn nodi: "Dylid creu'r brand ymbarél fel y gellir ei ddefnyddio'n ddwyieithog - Saesneg a Chymraeg". Yn ychwanegol, roedd adran "Hysbysedd a Chynhwysedd" y briff creadigol yn mynnu: "Rhaid i'r brand a'r holl ddeunyddiau ymgyrchu fod yn ddwyieithog yn Saesneg a Chymraeg."

Ymchwil a gwerthuso

	2010-2011	
Cyngor i gontractwyr	Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau	Bydd copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei anfon at yr holl asiantaethau ymchwil hynny sydd ar ein cytundeb fframwaith ansoddol a meintiol ar gyfer ymchwil.

	Sesiynau Cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / cyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru	Hysbysir yr holl gontractwyr ymchwil yn llawn yn ystod unrhyw sesiynau briffio cychwynnol cyn cychwyn unrhyw waith newydd o ymrwymiad y Comisiwn yn gysylltiedig â'n Cynllun Iaith Gymraeg a'r hyn a fyddai angen iddynt ei wneud yn ymarferol i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion hynny.
--	--	--

Cyllid Plaid ac Etholiad

	2010-2011	
Cyngor i gontractwyr	Sicrhau y rhoddir copi o'r Cynllun Iaith Gymraeg diweddaraf i'r holl gontractwyr sy'n gweithio gyda'r Comisiynau	<p>Mae'r contract gwreiddiol ar gyfer y PEF Ar-lein yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr, Triad, ddarparu cyfieithiad llawn o'r holl destun ar draws y system. Gan mai digwyddiad unwaith-ac-am-byth yw'r cyfieithiad wedi'i gontractio hwn, nid yw'r Comisiwn wedi gofyn am iddo gael ei orffen hyd nes bo'r system a chanllawiau wedi eu gorffen. Rydym yn awr mewn sefyllfa i symud ymlaen â'r cyfieithiad y dylid ei ddefnyddio gyda PEF Ar-lein erbyn canol Awst. Cyfrifoldeb y Comisiwn fydd cyfieithu'r holl newidiadau i'r dyfodol i destun y system.</p> <p>Unwaith y bo'r cyfieithiad wedi ei ddefnyddio bydd y safle cyfan ar gael yn Gymraeg fel adlewyrchiad o'r safle iaith Saesneg trwy linc ar dop bob tudalen. Bydd yr holl ddogfennau a ffurflenni cefnogol hefyd ar gael yn y Gymraeg.</p>
	Sesiynau Cyfarwyddo wyneb yn wyneb gyda chontractwyr / cyflenwyr newydd a fydd yn gweithio gyda'r Comisiwn yng Nghymru	Mae'r prosiect PEF Ar-lein bron â'i gwblhau. Ar y cam hwn nid oes unrhyw ofynion datblygu newydd.

3. Prif-ffrydio'r Iaith Gymraeg

Deunydd Cyllid Plaid ac Etholiad

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn ymgymryd ag adolygiad o'r holl ddeunydd Cyllid Plaid ac Etholiad nad ydynt yn berthnasol i etholiad. Mae hyn er mwyn sicrhau fod pawb sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cyllid Plaid ac Etholiad presennol neu i'r dyfodol yn medru dewis gwneud hynny yn y Gymraeg neu Saesneg.

Bydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r Bwrdd mewn datblygu'r gwaith hwn.

Hyfforddiant staff

Mae'r Comisiwn wedi dynodi ei bod yn angenrheidiol sicrhau fod rhaglen hyfforddiant a briffio mewnol cynhwysfawr yn cael ei sefydlu i'r holl staff. Rydym yn cydnabod fod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r gofynion cyffredinol sydd yn y cynllun ond mae'n hanfodol fod yr holl staff yn deall ymrwymiad y Comisiwn i ddarparu cydraddoldeb ar draws y ddwy iaith.

Rydym yn bwriadu darparu sesiwn briffio ac asesiad byr o wybodaeth staff am gynllun statudol y Comisiwn trwy raglen e-ddysgu a fyddai'n orfodol i'r holl staff sy'n gweithio yn y Comisiwn.

Ar hyn o bryd mae'r fenter hon yn cael ei datblygu a bydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r Bwrdd i sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i staff.

Gwirio ansawdd

Mae'r Comisiwn yn y broses o sefydlu cynllun mwy cadarn i wirio cyfieithiad effeithiol yr holl ddeunydd gan gynnwys y wybodaeth a geir o fewn y wefan gorfforaethol.

Eto byddem yn hapus i weithio gyda'r Bwrdd i barhau i ddatblygu'r darn hwn o waith.

4. Dangosyddion perfformiad

Gwasanaethau rheng flaen

PI1 - a) mae dau aelod o staff dwyieithog yn gweithio mewn swyddfa o chwech o bobl wedi'u lleoli yn Swyddfa Cymru'r Comisiwn (33.3%). Mae'r ddau aelod o staff ar gael i ddelio ag unrhyw alwadau gan y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg ar unrhyw adeg o fewn oriau swyddfa.

b) nid oes gennym ardal dderbynfa gyhoeddus

c) mae'r aelod staff sy'n gyfrifol am y brif lein ffôn yn Swyddfa Cymru yn cyfarch galwyr yn ddwyieithog. Os yw unrhyw alwr yn dymuno siarad ag aelod o staff yn y Gymraeg yna caiff ef / hi eu trosglwyddo i gydweithiwr perthnasol

Darparu gwasanaethau trwy drydydd partiön

PI2 - Ar hyn o bryd nid yw'r Comisiwn yn asesu cydymffurfriad gan unrhyw drydydd parti yn ymwneud â'r mesur perthnasol yn y cynllun iaith oherwydd natur gyfyngedig y gwasanaethau a ddarperir, a'r ffaith mai anaml y defnyddiwn trydydd partiön i gynnal unrhyw wasanaethau rheng flaen

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth iaith

PI3 – a) mae'r Comisiwn yn annog staff i ddysgu Cymraeg ac mae wedi trefnu cyrsiau yn y gorffennol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fodd bynnag nid oes unrhyw aelod o staff wedi mynegi diddordeb mewn mynychu'r fath gwrs.

b) mae'r Comisiwn eto i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i staff tu allan i Swyddfa Cymru hyd yma. Rydym yn ymdrin â'r mater hwn yn adran 3 ac yn gweld hyn fel y brif flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

Technoleg Gwybodaeth

PI4 - Mae anghenion TG yn ymwneud â defnyddwyr iaith Gymraeg yn cael eu hystyried gan Bennaeth TG ac mae rhaglenni dwyieithog wedi eu gwneud ar gael i'w gosod ar systemau petai angen hynny. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddefnyddiwr iaith Gymraeg wedi gofyn am i unrhyw feddalwedd dwyieithog gael ei osod ac efallai y bydd hyn yn rhywbeth a fydd yn ofynnol os yw'r sefyllfa yn Swyddfa Cymru yn newid.

Gweinyddu'r Cynllun

PI5 - Mae'r Comisiwn wedi derbyn dwy gŵyn ffurfiol ynghylch diffyg gwasanaeth iaith Gymraeg gan randdeiliaid a'r cyhoedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd un gŵyn yn ymwneud â gwefan aboutmyvote.co.uk y Comisiwn a'r llall am y ganolfan alwadau gwybodaeth gyhoeddus a sefydlwyd fel rhan o'n ymgyrch statudol ar y refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ymdriniwyd â'r ddwy gŵyn a'u datrys. Byddai'r Comisiwn yn falch o gyflwyno unrhyw ohebiaeth/ wybodaeth i'r Bwrdd ar y naill gŵyn neu'r llall os oes angen.